Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid: 18 Ebrill 2023

Agenda a chrynodeb o Cyfarfod y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid 18 Ebrill 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 3 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 3 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Cyfarfod 8 Chwefror 2023: cofnodion a chamau gweithredu

Y Pwyllgor Pobl Ifanc (YPC)

Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu (IPGs)

Adolygiad cyllid annibynnol

Crynodeb o'r gyllideb

Datblygu'r gweithlu – gan gynnwys Estyn a'r Marc Ansawdd

Estyn

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Diweddariad marchnata a chyfathrebu

UFA

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

- Sharon Lovell (SL) (Cadeirydd)
- Simon Stewart (SSt)
- Kelly Harris (KH)
- Marco Gil-Cervantes (MG)
- Sian Elen Tomos (ST)
- Deb Austin (DA)
- David Williams (DW)
- Joanne Sims (JS)
- Cyd-gadeirydd y Pwyllgor Pobl Ifanc (1) – yn bresennol am ran o'r cyfarfod
- Cyd-gadeirydd y Pwyllgor Pobl Ifanc (2) – yn bresennol am ran o'r cyfarfod
- Rudina Koka, Hwylusydd, y Pwyllgor Pobl Ifanc (RK) – yn bresennol am ran o'r cyfarfod
- Gareth Kiff, Estyn (GK)
- Linda Howells, Estyn (LH)
- Robert Leigh, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (RL)
- Darrel Williams, Prifysgol y Drindod Dewi Sant (DaW)
- Dyfan Evans, Pennaeth Cangen Ymgysylltu â Phobl Ifanc, Llywodraeth Cymru (DE)
- Donna Robins, Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru (DR)
- Dareth Edwards, Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru (DaE)
- Victoria Allen, Rheolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru (VA)
- Kirsty Harrington, Rheolwr Polisi Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru (KHa)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiheuriadau

- Shahinoor Shumon (SSh)
- Lowri Jones (LJ)
- Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru (HW)

## Gwrthdaro buddiannau

Nodwyd y canlynol fel achosion o wrthdaro buddiannau:

- Mae SSt yn Ddeon y Gyfadran Gwyddorau Bywyd a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam – un o'r Sefydliadau Addysg Uwch sy'n ymwneud â'r adolygiad cyllid
- Mae KH yn Gadeirydd Panel Cynghori Comisiynydd Gofal Plant Cymru
- Mae KH hefyd yn Asesydd Marc Ansawdd

# Cyfarfod 8 Chwefror 2023: cofnodion a chamau gweithredu

Mae'r cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod ar 8 Chwefror 2023 bellach wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhoddodd DE ddiweddariad ar y camau gweithredu sy'n parhau i fynd rhagddynt.

# Y Pwyllgor Pobl Ifanc (YPC)

Rhoddodd RK adborth ar gynnydd y pwyllgor hyd yma, gan nodi bod yr YPC yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

canolbwyntio ar recriwtio aelodau newydd ar hyn o bryd a sicrhau bod yr aelodaeth yn adlewyrchiad llawn o bobl ifanc Cymru. Rhoddodd cyd-gadeirydd yr YPC ddiweddariad ar y lefelau presenoldeb presennol yng nghyfarfodydd YPC ac amlinellodd sut y rheolir presenoldeb. Cydnabyddodd aelodau'r YPC yn bwysigrwydd aelodau newydd, gan gynnig eu cefnogaeth i helpu gyda'r recriwtio unwaith y bydd y llwybr wedi'i agor.

Cam gweithredu 1: KH i gyfarfod ag RK a chyd-gadeiryddion YPC i drafod sut y gall hi ac aelodau eraill o'r Bwrdd gefnogi'r YPC.

## Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu (IPGs)

Rhoddodd VA ddiweddariad ar gynnydd yr IPGs, gan nodi y bydd y ffocws yn y cyfarfodydd nesaf ar gytuno ar Gylch Gorchwyl a datblygu cynlluniau gwaith. Rhoddodd yr aelodau hynny o'r Bwrdd sy'n cadeirio IPGs adborth a sylwadau o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yn hyn.

Hoffai aelodau'r Bwrdd gael cyfle i fynychu cyfarfodydd o Gadeiryddion yr IPG i gael dealltwriaeth o'r gwaith sydd ar y gweill ac i ddefnyddio'r cyfleoedd hynny i edrych ar y cyd-ddibyniaethau rhwng yr IPGs.

Cam gweithredu 2: VA i wahodd holl aelodau'r bwrdd i gyfarfodydd o Gadeiryddion yr IPG.

## Adolygiad cyllid annibynnol

Ymunodd RL a DaW â'r cyfarfod ar ran y consortiwm SAU sy'n cynnal yr adolygiad cyllid annibynnol ar gyfer yr eitem hon yn unig i nodi'r cynnydd hyd yma ac i ddarparu manylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod y cam cyntaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hwn o'r adolygiad.

Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd i RL a DaW am eu cyflwyniad gan nodi bod amrywiaeth y sector gwaith ieuenctid a chymhlethdod ei strwythurau cyllido, llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn dilysu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r penderfyniad i gasglu dulliau meintiol ac ansoddol. Argymhellwyd bod y tîm ymchwil yn ymgysylltu â'r YPC neu grwpiau eraill o bobl ifanc wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, a gwnaed cynnig i'r tîm adolygu ddod i gyfarfod o'r YPC yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 3: RK i wahodd cynrychiolwyr o'r adolygiad cyllid i ddod i gyfarfod YPC yn y dyfodol.

## Crynodeb o'r gyllideb

Cyflwynodd DE gyllideb lefel uchel ar wariant hyd yma ar gyfer cyd-destun yr adolygiad cyllid annibynnol, a dyrannwyd arian i ategu gwaith y bwrdd yn unol ag argymhellion **"Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru"**.

Pwynt gweithredu 4: Gofynnwyd i'r Aelodau roi adborth ar unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y crynodeb cyllid i DE drwy e-bost.

## Datblygu'r gweithlu – gan gynnwys Estyn a'r Marc Ansawdd

Rhannodd swyddogion Llywodraeth Cymru y rhesymeg dros gynllun peilot datblygu'r gweithlu. Yn dilyn gweithgarwch drwy'r SPG Datblygu Gweithlu blaenorol, mae'n amlwg bod angen gwneud rhywfaint o waith pellach i gefnogi'r gweithlu i'w galluogi i gefnogi pobl ifanc yn well. Mae cyllid ar gael drwy'r grant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ETS i alluogi hyn i ddigwydd.

Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i wneud sylwadau ar y cynllun drafft. Bydd hyn yn cael ei rannu ag IPG Datblygu'r Gweithlu i'w ystyried ymhellach. Mae'n debygol y bydd swyddog datblygu'r gweithlu yn cael ei recriwtio fel rhan o'r gweithgaredd hwn i gefnogi gweithredu cynllun y cytunwyd arno.

## Estyn

Ymunodd GK a LH â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig i egluro mwy am y model arolygu arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, a sut maent yn bwriadu ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid i ddatblygu'r fframwaith.

Mae Estyn wedi datblygu'r fethodoleg i adlewyrchu natur wahanol gwaith ieuenctid. Mae tri chynllun peilot wedi'u cynnal a gafodd groeso brwd. Roedd y cynlluniau peilot yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ac yn edrych ar yr hyn y mae pobl ifanc a gwaith ieuenctid wedi'i gyflawni.

Ar hyn o bryd mae Estyn yn cynnal **ymgynghoriad** ar ddatblygu arolygiadau gwaith ieuenctid annibynnol. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 15 Mai.

Cam Gweithredu 5: DaE i drefnu cyfarfod cyn diwedd mis Mai i aelodau gyflwyno ymateb cyfunol i'r ymgynghoriad.

## Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Rhoddodd DR drosolwg o gefndir a threfniadau cyfredol y Marc Ansawdd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn ogystal â’r cynlluniau cyfredol ar gyfer trefniadau yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys ymgynghori â deiliaid presennol y Marc Ansawdd, aseswyr a'r sector gwaith ieuenctid ehangach. Bydd papur yn cael ei ddarparu i aelodau'r Bwrdd gyda rhagor o fanylion.

Cam Gweithredu 6: DR i gylchredeg papur ynghylch y Marc Ansawdd i aelodau'r Bwrdd.

## Diweddariad marchnata a chyfathrebu

Rhoddodd DE ddiweddariad ar gynllun marchnata a chyfathrebu 2023 i 2024, gan nodi y byddai trafodaethau manylach ar y cynllun yn cael eu cynnal yn y Grŵp Marchnata a Chyfathrebu ar 20 Ebrill. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y dull a oedd yn cael ei fabwysiadu a gofynnwyd am fanylion dyddiadau allweddol yn 2023 i 2024 unwaith y byddant wedi eu cadarnhau.

Cam Gweithredu 7: KHa i rannu calendr o ddigwyddiadau gydag aelodau'r Bwrdd pan fydd wedi'i gadarnhau.

## UFA

Rhoddodd SL ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi’i wneud hyd yn hyn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Deddfwriaeth, sydd bellach wedi cyfarfod ddwywaith.

Rhoddodd DE ddiweddariad ar adnoddau o fewn y Gangen Ymgysylltu â Phobl Ifanc, gan gynnwys y diweddaraf ar gyfleoedd secondiad a hysbysebwyd yn ddiweddar.

Cytunodd y Bwrdd y byddai trafodaethau yn y cyfarfod nesaf (15 Mehefin) yn canolbwyntio ar gynllun gweithredu ac argymhelliad 5 (y dylai Llywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymru sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru). Nododd y Bwrdd eu dymuniad i gynnal cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol wyneb yn wyneb mewn lleoliad gwaith ieuenctid i roi cyfle i gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-18-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.